

# CYRSIAU CYMRAEG

# WELSH COURSES

# 2019

nant gwrtheyrn

www.nantgwrtheyrn.org

# CROESO

Pentref hudolus Nant Gwrtheyrn wedi'i leoli mewn hen bentref chwarelyddol ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn yng Ngogledd Cymru yw cartref Canolfan Iaith Genedlaethol Cymru. Wedi buddsoddiad o £6 miliwn, mae'r ganolfan wedi datblygu'n gyrchfan brysur a phoblogaidd ymysg dysgwyr Cymraeg ac ymwelwyr yr ardal.

Nant Gwrtheyrn yw'r unig ganolfan sydd yn arbenigo mewn darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion drwy gyfrwng cyrsiau preswyl dwys sydd ar gael ar hyd y flwyddyn.

Rydym hefyd yn cynnig llety grŵp 5* en-suite ar gyfer ystod o grwpiau, lleoliad ar gyfer priodasau a chynadleddau a phedwar bwthyn hunanarlwyo 4* y gellir eu rhentu fel llety gwyliau.

Gall ymwelwyr â'r ardal ddod draw i Ganolfan Dreftadaeth y Nant i fwynhau yr arddangosfeydd am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, hanes y pentref a bywyd gwyllt unigryw y dyffryn diarffordd hwn a'i draeth. Yn y pentref, hefyd, mae tŷ wedi'i ddodrefnu i dywys ymwelwyr yn ôl i oes y chwareli…

# WELCOME

The magical village of Nant Gwrtheyrn located in a former quarrying village on the northern coast of the Llŷn Peninsula in North Wales is home to the National Welsh Language Centre of Wales. Following an investment of £6 million, the centre has developed into a busy and popular destination for Welsh learners and visitors.

Nant Gwrtheyrn is the only centre that specializes in delivering Welsh for Adults courses via intensive residential courses available throughout the year.

We also offer 5* en-suite group accommodation for a range of groups, a venue for weddings and conferences and four 4* self-catering cottages that can be rented as holiday accommodation.

Visitors to the area can visit our Heritage Centre with exhibitions about the Welsh language and Welsh culture, the history of the village and the unique wildlife of this remote valley and beach. Step back in time to 1910 and explore the quarryman's family home…

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Nant Gwrtheyrn**



# CYRSIAU COURSES

www.nantgwrtheyrn.org

2019

## CYRSIAU CYMRAEG PRESWYL A DYDDIOL

**Defnyddir dulliau addysgu iaith llwyddiannus ac anffurfiol sy'n mynd law yn llaw â ffyrdd eraill o ddysgu'r iaith. Mae ein cyrsiau ni yn atodol i gyrsiau darparwyr eraill ac maent yn gyfle gwych i ymarfer, adolygu a chynyddu hyder wrth siarad.**

Mae'r cyrsiau yn rhoi cyfle i bobl ymarfer pob sgil ieithyddol – siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu – ond rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygu hyder i siarad yr iaith, drwy eich annog i fanteisio ar bob cyfle i ymarfer eich Cymraeg yn ystod eich cyfnod yn y Nant.

Mae ein tiwtoriaid profiadol yn gallu addasu rhywfaint ar gynnwys bob cwrs yn unol ag anghenion y grŵp, a chan na fyddwch chi byth mewn dosbarth o dros 14 o bobl byddwch yn siŵr o gael digon o sylw unigol.

## RESIDENTIAL AND DAILY WELSH COURSES

**Successful informal language teaching methods are used which complement other ways of learning the Welsh language. Our Welsh courses are supplementary to other course providers and provide an excellent chance to practice, revise and build your confidence.**

The courses give people the opportunity to practice each language skill – speaking, reading, listening and writing – but particular emphasis is placed on building your confidence to speak the language by encouraging you to practise your Welsh as much as possible during your stay at Nant.

Our experienced tutors adjust the course content in accordance with the groups needs. You will never be in a class of more than 14 people so you're sure to get plenty of personal encouragement and attention.

# LLETY

Bydd myfyrwyr sy'n mynychu ein cyrsiau preswyl Cymraeg yn aros yn hen fythynnod y chwarelwyr sydd bellach wedi eu huwchraddio i safon llety grŵp 5*. Mae pob ystafell wedi'i dodrefnu gyda dodrefn derw wedi eu gwneud â llaw yng Nghymru a charthen draddodiadol Gymreig ar bob gwely. Beth am aros am nosweithiau ychwanegol cyn ac ar ôl y cwrs neu aros am wyliau, efallai?

# ACCOMMODATION

Students who attend our residential Welsh courses stay at the old quarrymen's cottages which have been upgraded to a 5* group accommodation standard. Every room is furnished with oak furniture that is hand made in Wales and a traditional Welsh blanket on every bed. Why not arrange accommodation for additional nights before and after the course or stay with us for a holiday?





# GWERSI

Fel arfer, bydd y gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal yn y Plas, cartref rheolwr y chwarel ers talwm. Mae'r ystafelloedd wedi eu dodrefnu â'r cyfarpar diweddaraf i'n galluogi i gynnig amrywiaeth o ddulliau dysgu, yn cynnwys dulliau traddodiadol. Os yw'r tywydd yn caniatáu, rydym yn ymdrechu i gynnal ychydig o weithgareddau y tu allan i'r dosbarth gan wneud y mwyaf o'r adnoddau naturiol sydd gennym o amgylch y safle.

# LESSONS

Usually, the Welsh lessons are held in the 'Plas', the former home of the manager of the quarry. The rooms are furnished with the latest equipment to enable us to offer a variety of learning methods, including traditional methods. Weather permitting, we aim to carry out some activities outside the classroom, enabling us to make the most out of the natural resources around the site.





# EICH AMSER RHYDD...

Gall myfyrwyr ddefnyddio'r lolfa yn y Plas drwy gydol eu hamser yn y Nant. Mae'r lolfa yn ystafell gyfleus i astudio neu i ymlacio ynddi gyda'r nos. Bydd Caffi Meinir yn agored yn ystod eich amser yn y Nant a bydd y staff yno yn fwy na hapus i hybu eich defnydd o'r Gymraeg. Bydd cyfle i chi flasu'r gorau o gynnyrch Cymreig lleol yn ystod amseroedd brecwast, cinio a swper. Bydd cyfleusterau bar ar gael ac yn gwerthu dewis eang o gwrw lleol.

# YOUR FREE TIME...

Students are welcome to use the lounge at 'Y Plas' throughout their time at Nant. The lounge is a convenient room for studying or relaxing during the evening. The café will be open during your time at Nant and the staff will be more than happy to encourage you to use your Welsh. There will be a chance to taste the best of local Welsh produce during breakfast, lunch and dinner. The bar facilities will also be available offering a wide range of local beers.





## Y cwrs gorau i chi

Rydym yn annog myfyrwyr i drafod eu hanghenion gyda thiwtor ymlaen llaw ac rydym yn anelu at gael pob myfyriwr ar y cwrs sydd fwyaf addas ar gyfer ei anghenion personol.

Os ydych chi'n ansicr o'ch lefel gallwch drafod eich anghenion trwy ffonio **01758 750334**. Ni fydd y tiwtor ar gael bob amser gan y bydd yn dysgu, ond bydd aelod o staff y Swyddfa yn cymryd eich manylion ac yn trefnu i'r tiwtor gysylltu â chi cyn gynted ag sy'n bosib.

Mae ein tiwtoriaid yn hapus bob amser i'ch helpu i ddewis y cwrs gorau ar gyfer eich anghenion chi.

## The best course for you

We encourage students to discuss their needs with a tutor in advance and we aim to have all students on the course that is most suitable for their personal needs.

If you are unsure of your level you can discuss your needs by calling **01758 750334**. A tutor will not always be available as they will be teaching, but a member of staff at the Office will take your details and arrange for the tutor to contact you as soon as possible.

Our tutors are always happy to help you choose the best course for your needs.

# CWRS TRI DIWRNOD: BLASU

# THREE DAY COURSE: TASTER

**8-10/2/19**
**26-28/3/19**
**7-9/5/19**
**23-25/7/19**
**27-29/8/19**
**24-26/9/19**

*Course is taught in English*

**Dewch i gael blas ar y Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar.**

- ynganu
- defnyddio enwau lleoedd ac arwyddion
- cyfarchion
- rhifo syml a lliwiau
- dyddiau'r wythnos
- siarad am y tywydd
- ymadroddion bob dydd
- berfau a gofyn/ateb cwestiynau syml

*Addas ar gyfer pobl heb unrhyw wybodaeth flaenorol o'r Gymraeg. Cwrs delfrydol i baratoi ar gyfer mynd ar gwrs Mynediad 1. Dysgir y cwrs hwn drwy gyfrwng y Saesneg.*

**An introduction to speaking Welsh in an informal and friendly atmosphere.**

- pronunciation
- using place names and signs
- greetings
- numbers and colours
- days of the week
- talk about the weather
- everyday phrases
- verbs and simple questions

*Suitable for people with no prior knowledge of the language. Ideal preparation for going on an Entry 1 course. This course is taught in English.*



**Dyma gwrs ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.**

- dysgu'r amser presennol
- berfau
- creu brawddegau yn yr amser presennol
- defnyddio rhifau, trafod arian
- dysgu dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn, tymhorau
- gofyn am bethau, e.e. mewn caffi, tafarn neu siop
- meddiant, e.e. *mae gen i/'da fi …*
- ehangu geirfa ac ymadroddion defnyddiol
- trip siopa i Bwllheli

*Addas ar gyfer pobl sydd ag ychydig o gefndir yn y Gymraeg, ac sy'n gallu gwneud rhai pethau syml fel ynganu, rhifo, cyfarch ac sy'n gwybod rhai geiriau a brawddegau syml. Dysgir y cwrs hwn drwy gyfrwng y Saesneg.*

**A course for beginners, introducing vocabulary, basic language patterns and everyday phrases. The emphasis is on spoken Welsh.**

- learn the present tense
- verbs
- create sentences in the present tense
- use numbers, handling money
- learn days of the week, months of the year, seasons
- asking for things, e.g. in a cafe, pub or shop
- possession, e.g. *I have / I've got ...*
- expand vocabulary and useful phrases
- shopping trip to Pwllheli

*Suitable for people with some knowledge of the Welsh language, and who can do some simple tasks like pronounce, count and greet and create simple sentences. This course is taught in English.*

# CWRS WYTHNOS: MYNEDIAD RHAN 1

# WEEK COURSE: ENTRY PART 1

**11-15/2/19**
**25-29/3/19**
**13-17/5/19**
**24-28/6/19**
**22-26/7/19**
**19-23/8/19**
**2-6/9/19**
**30/9/19-4/10/19**
**11-15/11/19**

*Course is taught in English*

# CWRS WYTHNOS: MYNEDIAD RHAN 2

# WEEK COURSE: ENTRY PART 2

Course is taught in English

**18-22/2/19**
**1-5/4/19**
**13-17/5/19**
**1-5/7/19**
**29/7/19 - 2/8/19**
**19-23/8/19**
**2-6/9/19**
**7-11/10/19**

**Parhad o'r cwrs ar gyfer dechreuwyr. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.**

- adolygu patrymau'r amser presennol
- dysgu'r amser perffaith: wedi
- meddiant, e.e. *fy nghar i, dy gar di, ei gar o/e, ei char hi*
- creu brawddegau yn y gorffennol syml, e.e. *'Es i i Bwllheli ddoe'*
- gofyn ac ateb cwestiwn yn y gorffennol syml
- mynegi eisiau neu angen
- ie / nage
- dysgu enwau rhannau'r corff
- ehangu geirfa ac ymadroddion defnyddiol
- ymweld ag atyniadau lleol

*Dysgir y cwrs hwn drwy gyfrwng y Saesneg.*

**A continuation of the course for beginners. The emphasis is on spoken Welsh.**

- review the patterns of the present time
- learn the perfect tense: I have been
- possession, e.g. *my car, your car, his/her car*
- create simple sentences in the past, e.g. *'I went to Pwllheli yesterday'*
- ask and answer questions in the simple past
- express wants or needs
- yes / no
- learn the names of body parts
- expand vocabulary and useful phrases
- visit local attractions

*This course is taught in English.*



# CWRS WYTHNOS: SYLFAEN RHAN 1+2

# WEEK COURSE: FOUNDATION PART 1+2

**25/2/19-1/03/19**
**8-12/4/19**
**20-24/5/19**
**1-5/7/19**
**5-9/8/19**
**9-13/9/18**
**14-18/10/19**
**18-22/11/19**

**Dyma gwrs sy'n adeiladu ar lefel Mynediad ac sy'n gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Bydd y prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau. Byddwch yn cwblhau dwy ran y lefel Sylfaen ar y cwrs hwn.**

- adolygu'r amser gorffennol cryno
- sôn am ddigwyddiadau olynol: *cyn i mi…, ar ôl i mi…*
- dysgu yr amser amherffaith: *roeddwn i*
- dyddiadau
- defnyddio arddodiaid gyda berfau
- datblygu rhagenwau, e.e. *dw i wedi ei ddarllen o/e; dw i eisiau ei gweld hi*
- ehangu geirfa ac ymadroddion defnyddiol
- sgwrsio gyda thrigolion lleol

*Er y bydd y cwrs hwn yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg ar y dechrau, yn raddol bydd y Gymraeg yn cymryd ei lle fel y brif iaith gyfathrebu.*

**This course builds on Entry level and is suitable for those who already speak very basic Welsh. The main emphasis will be on speaking the language, with a chance to discuss everyday matters such as family and friends, work and leisure. You'll complete both parts of the Foundation level on this course.**

- revise the simple past tense
- discuss consecutive events: *before I..., after I...*
- learn the imperfect tense
- dates
- use prepositions with appropriate verb-nouns
- developing pronouns, e.g. *I've read it; I want to see it*
- expand vocabulary and useful phrases
- chat with local residents

*Although this course will be taught in English at first, the language will gradually be replaced by Welsh as the main language of communication.*

# CWRS WYTHNOS: CANOLRADD RHAN 1+2

# WEEK COURSE: INTERMEDIATE PART 1+2

**4-8/3/19**
**3-7/6/19**
**8-12/7/19**
**16-20/9/19**
**21-25/10/19**
**25-29/11/19**

**Dyma gwrs sy'n adeiladu ar lefel Sylfaen. Bydd cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, ysgrifennu, darllen a gwrando. Byddwch yn cwblhau dwy ran y lefel Sylfaen ar y cwrs hwn.**

- rhoi a derbyn gwybodaeth bersonol
- disgrifio, gan ddefnyddio ystod eang o ansoddeiriau
- mynegi barn
- deall a defnyddio'r geiriau: *hwn, hon, hyn, hwnnw ayb*
- dysgu'r amser goddefol
- llongyfarch, dymuno'n dda a chydymdeimlo â rhywun
- ehangu geirfa ac ymadroddion defnyddiol
- sgwrsio gyda thrigolion lleol

*Cymraeg fydd prif iaith gyfathrebu y cwrs hwn, er bod croeso i fyfyrwyr ddefnyddio Saesneg er mwyn deall agweddau mwyaf cymhleth yr iaith a'r ramadeg.*

**This course builds on Foundation level. You'll develop your speaking, writing, reading and listening skills. You'll complete both parts of the Foundation level on this course.**

- give and receive personal information
- describe, using a wide range of adjectives
- express opinion
- understand and use the words: *this, that*
- learn the passive tense
- congratulate and empathies with someone
- expand vocabulary and useful phrases
- chat with local residents

*Welsh will be the main language of communication on this course, although students are welcome to use English in order to understand the most complex aspects of the language and the grammar.*



**Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando.**

- adolygu prif batrymau'r iaith
- cynnal sgwrs am y teulu, gwaith, diddordebau, ayb, ac ymateb yn briodol
- mynegi barn am bynciau llosg y dydd
- darllen, deall ac ymateb i erthyglau o bapurau newydd, papurau bro a chylchgronau
- trafod idiomau a diarhebion
- ehangu geirfa ac ymadroddion
- sgwrsio gyda thrigolion lleol

*Cymraeg fydd prif iaith gyfathrebu y cwrs hwn, er bod croeso i fyfyrwyr ddefnyddio Saesneg er mwyn deall agweddau mwyaf cymhleth yr iaith a'r ramadeg.*

**The focus is on developing your spoken Welsh, with opportunities to discuss all kinds of subjects. You'll also get to improve your reading, writing, listening skills.**

- review the main patterns of the language
- hold a conversation about family, work, hobbies, etc. and respond appropriately
- express opinions on hot topics of the day
- read, understand and respond to articles from newspapers, community newspapers and magazines
- discuss idioms and proverbs
- expand vocabulary and phrases
- chat with local residents

*Welsh will be the main language of communication of this course, although students are welcome to use English in order to understand the most complex aspects of the language and the grammar.*

# CWRS WYTHNOS: UWCH RHAN 1+2

# WEEK COURSE: ADVANCED PART 1+2

**11-15/3/19**
**10-14/6/19**
**15-19/7/19**
**12-16/8/19**
**28/10/19-1/11/19**

# CWRS WYTHNOS: UWCH II RHAN 1+2

# WEEK COURSE: ADVANCED II PART 1+2

**18-22/3/19**
**17-21/6/19**
**12-16/8/19**
**4-8/11/19**

**Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando.**

Cwrs sy'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr astudio diwylliant y Cymry drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob cwrs yn wahanol er mwyn gofalu y gall myfyrwyr ei fynychu fwy nag unwaith, ond bydd pob cwrs yn cynnwys elfennau o'r canlynol:

- hanes
- llenyddiaeth
- atyniadau lleol

*Mae pob cwrs Uwch 2 yn addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg (lefel Uwch) neu Gymry Cymraeg sydd eisiau dysgu mwy am eu hanes a'u diwylliant Cymreig.*

Bydd themâu'r cyrsiau ar gael ar ein gwefan yn fuan iawn!

**The focus is on developing your spoken Welsh, with opportunities to discuss all kinds of subjects. You'll also get to improve your reading, writing, listening skills.**

A course that allows students to study the culture of the Welsh through the medium of the Welsh language. Each course is different to ensure that students can attend more than once, but each course consists of the following elements:

- history
- literature
- local attractions

*Every Higher 2 course is suitable for Welsh learners (Higher level) or native Welsh speakers who want to learn more about their history and culture.*

The themes of these courses will be available on our website very soon!



**Dyma gwrs ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf sydd eisiau cryfhau eu sgiliau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.**

Ar y cwrs hwn byddwn yn anelu at astudio'r canlynol:

- gwallau cyffredin
- treigladau
- arddodiaid
- sillafu
- idiomau
- adnabod patrymau Saesneg yn yr iaith Gymraeg – a'u newid am batrymau Cymreig

*Addas ar gyfer pobl sy'n ddysgwyr rhugl neu'n Gymry Cymraeg iaith gyntaf sydd eisiau canolbwyntio ar loywi eu hiaith lafar ac ysgrifenedig.*

**A course for fluent learners and first language Welsh speakers who wish to improve their skills, whether spoken or written Welsh.**

On this course we aim to study the following:

- common errors
- mutations
- prepositions
- spelling
- idioms
- identify English patterns in the Welsh language - and replace them with Welsh patterns

*Suitable for fluent learners or first language Welsh speakers who want to improve their spoken and written language.*

# CWRS TRI DIWRNOD: GLOYWI IAITH

# THREE DAY COURSE: GLOYWI IAITH

**16-18/4/19**
**27-29/8/19**
**3-5/12/19**

# CYRSIAU COURSES

www.nantgwrtheyrn.org

2019





| Lliw / Colour | Cwrs / Course |
|---|---|
| Pinc / Pink | Blasu / Taster |
| Melyn / Yellow | Mynediad 1 / Entry 1 |
| Oren / Orange | Mynediad 2 / Entry 2 |
| Gwyrdd / Green | Sylfaen 1+2 / Foundation 1+2 |
| Glas / Blue | Canolradd 1+2 / Intermediate 1+2 |
| Coch / Red | Uwch 1+2 / Higher 1+2 |
| Porffor / Purple | Uwch II 1+2 / Higher II 1+2 |
| Du / Black | Gloywi Iaith |
| Amryliw / Multicolour | Atodol / Supplementary |

## 1. IONAWR / JANUARY

DIM CYRSIAU / NO COURSES

## 2. CHWEFROR / FEBRUARY

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| | | | | C1901 | C1901 | C1901 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| C1902 | C1902 | C1902 | C1902 | C1902 | | |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| C1903 | C1903 | C1903 | C1903 | C1903 | | |
| 25 | 26 | 27 | 28 | | | |
| C1904 | C1904 | C1904 | C1904 | → | | |

## 3. MAWRTH / MARCH

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| | | | | → C1904 | | |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| C1905 | C1905 | C1905 | C1905 | C1905 | | |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| C1906 | C1906 | C1906 | C1906 | C1906 | | |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| C1907 | C1907 | C1907 | C1907 | C1907 | | |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 |
| C1908 | C1908 | C1908 | C1908 | C1908 | | |
| | C1909 | C1909 | C1909 | | | |

## 4. EBRILL / APRIL

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| C1910 | C1910 | C1910 | C1910 | C1910 | | |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| C1911 | C1911 | C1911 | C1911 | C1911 | | |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| | C1912 | C1912 | C1912 | | | |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | | | | | |

## 5. MAI / MAY

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| | | C1913 | | | | |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| | | C1914 | | | | |
| | | C1915 | | | | |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| | | C1916 | | | | |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |
| | | C1917 | | | | |

## 6. MEHEFIN / JUNE

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| | | C1918 | | | | |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| | | C1819 | | | | |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| | | C1820 | | | | |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| | | C1821 | | | | |

## 7. GORFFENNAF / JULY

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| | | C1922 | | | | |
| | | C1923 | | | | |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| | | C1924 | | | | |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| | | C1925 | | | | |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| | | C1926 | | | | |
| | | C1927 | | | | |
| 29 | 30 | 31 | | | | |
| | C1928 → | | | | | |

## 8. AWST / AUGUST

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| | | → | | | | |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| | | C1929 | | | | |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| | | C1930 | | | | |
| | | C1931 | | | | |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| | | C1932 | | | | |
| | | C1933 | | | | |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |
| | | C1934 | | | | |
| | | C1935 | | | | |

## 9. MEDI / SEPTEMBER

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | | C1936 | | | | |
| | | C1937 | | | | |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| | | C1938 | | | | |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| | | C1939 | | | | |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| | | C1940 | | | | |
| 30 | | | | | | |
| → | | | | | | |

## 10. HYDREF / OCTOBER

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| → | | C1941 | | | | |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| | | C1942 | | | | |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| | | C1943 | | | | |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| | | C1944 | | | | |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |
| | C1945 | | | → | | |

## 11. TACHWEDD / NOVEMBER

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| | | | → | | | |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| | | C1946 | | | | |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| | | C1947 | | | | |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| | | C1948 | | | | |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | |
| | | C1949 | | | | |

## 12. RHAGFYR / DECEMBER

| Llun Monday | Mawrth Tuesday | Mercher Wednesday | Iau Thursday | Gwener Friday | Sadwrn Saturday | Sul Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | | C1950 | | | | |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | 31 | | | | | |

# SUT I ARCHEBU

Gallwch archebu ar-lein neu gallwch gysylltu â Swyddfa Nant Gwrtheyrn.

Cynigir **gostyngiad o 10%** oddi ar unrhyw gwrs i unrhyw un sydd ddim mewn gwaith llawn amser. Anfonwch dystiolaeth ddilys, e.e. cerdyn myfyriwr, tocyn bws/trên am ddim, gyda'ch ffurflen archebu os gwelwch yn dda. Dylech nodi eich bod yn hawlio'r gostyngiad ar eich ffurflen gais.

**Dysgwyr Gwynedd a Môn…**
Cysylltwch â ni ar
**01758 750334**
i holi am gynigion arbennig i drigolion lleol.

# HOW TO BOOK

You can book a Welsh language course online or you can book over the telephone by calling the office at Nant Gwrtheyrn.

A **10% discount** is offered off any course to anyone who is not in full time employment. Send valid evidence, eg student card, bus/train tickets with your order form please. Please note if you are entitled to a discount on your application form.

**Gwynedd and Anglesey learners…**
contact us on
**01758 750334**
to enquire about our special offers for local residents.

**Ni ellir hawlio dau ostyngiad gyda'i gilydd.**
**It is not possible to claim more than one discount at one time.**

www.nantgwrtheyrn.org // post@nantgwrtheyrn.org

# COSTAU CYRSIAU AC ARCHEBU
# COURSE COSTS AND BOOKING

| | Penwythnos<br>Weekend | 3 diwrnod<br>3 days | 5 niwrnod<br>5 days |
|---|---|---|---|
| Lluniaeth Llawn<br>Full Board | **£240** | **£295** | **£495** |
| Dyddiol<br>Daily | **£145** | **£185** | **£295** |

## Arbediad o 20%

**Arbedwch 20% drwy ddod yn aelod o Gyfeillion Nant Gwrtheyrn!**

Am £30 y flwyddyn, byddwch yn derbyn gostyngiad o 20% oddi ar bob cwrs, gostyngiad o15% yng Nghaffi Meinir, 15% oddi ar lety, a 15% oddi ar docynnau unrhyw ddigwyddiad.

## Save 20%

**Save 20% by becoming a member of Friends of Nant Gwrtheyrn!**

For a £30 annual fee, you will receive a 20% discount off any course, 15% discount at Caffi Meinir, 15% off accommodation, and 15% off tickets to any event.

*Prisiau'n cynnwys adnoddau dysgu a gweithgareddau*
*Prices include learning materials and activities*

nant gwrtheyrn

www.nantgwrtheyrn.org

**Ffôn/Tel: 01758 750334 • Ffacs/Fax: 01758 750335 • post@nantgwrtheyrn.org**

Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd LL53 6NL

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

CYMRAEG

ERDF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

heritage treftadaeth

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

